CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 28ain MAWRTH 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mr Einion Parry Williams, Mrs Janet Hughes, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard, Mr W Raymond Evans
a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorwyr Sirol: Mr Victor Hughes.

YMDDIHEURIAD:
Cyng Mrs Catherine Jane Hughes, Mr Mike Jones, Mr Edward Thomas a Mr Meirion Thomas.

Cynghorwr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.2 Gan fod hyn yn debygol o fod y cyfarfod olaf i Cyng Sirol Victor Hughes fynychu, diolchwyd y Cadeirydd yn arw iddo am ei cyfraniad a'i waith trylyw yn ystod ei cyfnod fel Cynghorydd Sirol ac i ddymuno yn dda iddo am y dyfodol. Diolchodd ynte i'r Cyngor a'r aelodau am y fraint ar pleser oedd wedi cynrhychioli'r plwyf ac i gynnig cymorth unrhyw amser.

1.3 Nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb ar unrhyw eitem wedi ei rhestru ar y rhaglen.

2 ADRODDIAD SEFYLLFA BAW CI YN Y PENTREF.

2.1 Yn dilyn cyfarfod mis diwethaf, cadarnhawyd fod y Cyngor Sir wedi penodi Cwmni swyddogol i plismona'r holl cwynion ac yn ogystal a dirywio unrhyw perchennog ci oedd yn baeddu, fe fyddant hefyd yn troseddu unrhyw un yn parcio'n beryg ac datrys unrhyw problemau sbwriel mewn tref/pentrefi. Deallir mai cyfnod prawf dros tri mis y bydd y cwmni yn gweithredu yn dechrau ar õl yr etholiad.

3 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 28ain Chwefror 2017 yn gywir. (IO/LJ).

Arwyddo.....

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 Cynllun Nwy y Gaerwen – nodwyd fod y diwrnod agored wedi ei chynnal ar y 7fed Fawrth ac i ddisgwyl am adroddiad y Cwmni er mwyn darganfod unrhyw adborth ganddynt.

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 Tyrchod yn y Caeau Chwarae – roedd y Clerc eisoes wedi cysylltu gyda'r cwmni arferol i ddatrys y sefyllfa ond nid oedd wedi derbyn unrhyw datganiad ganddo.

5.2 Dywedodd y Cyng Ian Owen ei fod wedi cysylltu gyda'r cwmni er mwyn adnewyddu arwyddion y caeau chwarae ac wedi gofyn am amcancyfrif ganddo – disgwylir hyn cyn symud ymlaen.

5.3 CPD Gaerwen – deallir fod y Clwb Peldroed yn cynnal DAU diwrnod agored dechrau Mis Mai ar y Cae Peldroed ac mynegwyd siom nad oeddynt wedi ysgrifennu i'r Cyngor Cymdeithas yn gofyn am caniatad. **Y Clerc i wneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.**

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 **Fforwm Mynediad Agored** – nodwyd nad oedd cyfarfod heb fod eto ond y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir a oedd enw Cyng Einion P Williams wedi ei ystyried a'i dderbyn fel aelod newydd o'r Fforwm.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 **Llinellau Gwyn Cyffordd Lon Groes** – tynnwyd sylw fod yno pryderon yn dilyn y marciau newydd sydd wedi ei osod yn achosi anhawsterau I gerbydau. Penderfynid – dwyn sylw pryderon i'r Adran Briffyrdd y Cyngor Sir

8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Llawn Addasu & Ehangu yn:
LLEOLIAD: 144 Gaerwen Uchaf, Gaerwen. Rhif: 33C1X/2.
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

9 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

9.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Mawrth 2017 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc. Ychwanehwyd taliad cyflog y Clerc am misoedd Awst 2016 hyd at Mawrth 2017 – cyfanswm £1,920.00

Arwyddo.....

9.2 Unrhyw Daliadau Eraill:

Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

Mr John D Roberts – Costau Archwiliad Blynyddol 2016	**-**	**£69.00**
Un Llais Cymru – Tal Aelodaeth 2017 / 2018	**-**	**£225.00**
Cymdeithas Gemau'r Ynysoedd – Rhodd	**-**	**£50.00**

9.3 **Gweinyddu & Rheoli Risg – Dim Adroddiad.**

10. ADRODDIADAU.

10.1 Pwyllgor Rheoli y Ganolfan – dangosodd Cyng Ian Owen pryder ofnadwy nifer aelodaeth y Pwyllgor sydd wedi lleihau dros amser ac fe cafwyd trafodaeth cryno ymhlith yr aelodau am y ffordd orau ymlaen – **penderfynwyd ystyried y cam nesaf ar ol sefydlu y Cyngor newydd yn mis Mai**.

11. GOHEBIAETH

11.1 Llythyr oddiwrth Cyng Janet Hughes yn hysbysu'r aelodau nad oedd yn bwriadu ail sefyll am dymor arall – diolchodd y Cadeirydd iddi am yr holl cyfraniad ac mynegi siom dros y penderfyniad.

11.2 **Etholiad Mis Mai** – dangoswyd pryder am y nifer oedd yn bwriadu ail sefyll am dymor arall ac i ddisgwyl tan cyfarfod Mis Mai er mwyn darganfod y sefyllfa cywir.

11.3 **Strategaeth Ddrafft Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022** – roedd papur strategaeth ddrafft wedi ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Gwaith y Cyngor Sir ac disgwylir ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn yr etholiad llywodraeth leol ar y 4 Mai 2017.

11.4 **Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy** – y Cyng Einio P Williams i cwblhau TRI holiaduron erbyn 5ed Mai 2017.

11.5 **Cyfarfod nesaf Cangen Pwyllgor Ardal Ynys Mon – Un Llais Cymru – 30 Mawrth 2017.**

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 25ain EBRILL 2017.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8:15yh.

Arwyddo…….....…….……Cadeirydd….....……..Dyddiad.